Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllun Datblygu Lleol 2

(dyddiad terfyn 2031)



# Adroddiad Monitro Blynyddol 4


Hydref 2025


# Tudalen y Cynnwys

1. Cyflwyniad .... 2
2. Golwg sydyn ar y tueddiadau allweddol .... 3
3. Dangosyddion Monitro .... 5
Pwrpasau a dyletswydd y parc cenedlaethol a'r strategaeth ofodol .... 6
2A Nodweddion arbennig .... 12
2B Datblygiadau mawr, potensial ar gyfer twf .... 18
2C Newid hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy .... 22
2D Yr economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio gwledig .... 28
2E Tai fforddiadwy a thwf tai .... 36
2F Cyfleusterau cymunedol, unedau manwerthu a thrafnidiaeth .... 48
Canllawiau Cynllunio Atodol .... 53
Effeithiolrwydd polisïau a chanllawiau ar apêl .... 56
4. Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd .... 65
Atodiad 1 amseru a darparu safleoedd neilltuo newydd fesul cyfnod .... 88
Atodiad 2 amseru a darparu safleoedd gyda chaniatâd cynllunio fesul cyfnod .... 89

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Lleolir Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar ymylon arfordir gorllewinol Cymru. Dyma'r Parc Cenedlaethol lleiaf yng Nghymru (240 milltir / 620 cilometr sgwâr), a hefyd yr un mwyaf dwys ei boblogaeth (mae tua 23,000 o bobl yn byw yma). Mae'r Parc wedi'i greu o stribyn arfordirol cul (heblaw am Fryniau'r Preseli), tua 200 milltir / 318 cilometr o hyd a llai na 2km neu ychydig dros filltir o lydan ar gyfartaledd. Mae felly'n amhosib ei wahanu oddi wrth weddill ei amgylchoedd.




1.2 Yn yr amgylchiadau lleoliadol unigryw hyn, mae Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol yn cyflwyno strategaeth ar gyfer parhau i wneud ein gorau i warchod ein Parc Cenedlaethol fel ased cenedlaethol a rhyngwladol bwysig a welir fel esiampl o gorff datblygiad cynaliadwy ar sail asedau amgylcheddol.

1.3 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn asesu effeithiau'r Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn yr effeithiau bwriedig.

1.4 Mae'r pedwerydd adroddiad hwn ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2024 tan ddiwedd Mawrth 2025.

## 2. Golwg sydyn ar y tueddiadau allweddol

2.1 Hwn yw'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'n trafod yr pedwerydd flwyddyn ariannol lawn ers i Gynllun Datblygu Lleol 2 gael ei fabwysiadu ym mis Medi 2020, dros gyfnod y flwyddyn ariannol rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Mae'n statudol ofynnol i ni gyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2025.

2.2 Mae'r adroddiad yn mesur gwahanol ddangosyddion sy'n asesu perfformiad y gwahanol bolisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol 2.

2.3 Dangosir isod y tueddiadau allweddol ar gyfer pob polisi ac amcan cynaliadwyedd, gan ddefnyddio codau lliw i roi trosolwg cliriach ar berfformiad y polisïau.

2.4 Mae'r dangosyddion yn dangos bod y polisïau ar y cyfan yn cael eu gweithredu'n effeithiol, a thargedau ac amcanion Cynllun Datblygu Lleol 2 yn cael eu cyflawni.

| **Dangosydd CDLl rhif** | **Pwnc** | **Perfformiad o'i gymharu â'r targed** |
|---|---|---|
| 1 | Yn Groes i'r Argymhelliad | Parhau i fonitro |
| 2 | Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol | Parhau i fonitro |
| 3 | Cynnal Cymunedau | Parhau i fonitro. |
| 4 | Nodweddion Arbennig | Parhau i fonitro |
| 5 | Yr Iaith Gymraeg | Parhau i fonitro |
| 6 | Tirlun a Morlun | Parhau i fonitro |
| 7 | Meysydd Glas | Parhau i fonitro |
| | Mannau Agored | Parhau i fonitro |
| | Lleindiroedd | Parhau i fonitro |
| 8 | Datblygiadau Mawr | Parhau i fonitro |
| 9 | Ceisiadau Mwynau | Parhau i fonitro |
| 10 | Rheoli Gwastraff | Parhau i fonitro |
| 11 | Dylunio Cynaliadwy | Parhau i fonitro |
| 12 | Gwres o Ynni Adnewyddadwy | Parhau i fonitro |
| 13 | Trydan o Ynni Adnewyddadwy | Parhau i fonitro |
| 14 | Canllawiau Adnewyddadwy | Parhau i fonitro |
| 15 | Llifogydd | Parhau i fonitro |
| 16 | Hamdden | Parhau i fonitro |
| 17 | Gwestai | Parhau i fonitro |
| 18 | Unedau Hunan-Ddarpar | Parhau i fonitro |
| 19 | Carafanau a Gwersylla | Parhau i fonitro. |
| 20 | Cyflogaeth | Parhau i fonitro |
| 21 | Colli Swyddi | Parhau i fonitro |
| 22 | Dangosydd wedi'i dynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru | |
| 23 | Tai Fforddiadwy | Parhau i fonitro. |
| 24 | Pob Math o Dai | Parhau i fonitro. |
| 25 | Hyfywedd | Parhau i fonitro. |

| Dangosydd CDLl rhif | Pwnc | Perfformiad o'i gymharu â'r targed |
|---|---|---|
| 26 | Safleoedd Sipsiwn | Parhau i fonitro. |
| 27 | Dwysedd | Parhau i fonitro. |
| 28 | Cymysgedd o Dai | Parhau i fonitro. |
| 29 | Dosbarthiad Gofodol | Parhau i fonitro. |
| 30 | Deiliadaeth Tai | Parhau i fonitro. |
| 31 | Cyfleusterau Cymunedol | Parhau i fonitro. |
| 32 | Ymrwymiadau Cynllunio | Parhau i fonitro. |
| 33 | Hierarchaeth Unedau Manwerthu | Parhau i fonitro. |
| 34 | Unedau Manwerthu Gwag | Parhau i fonitro. |
| 35 | Trafnidiaeth | Parhau i fonitro. |

| Dangosydd Arfarniad Cynaliadwyedd rhif. | Pwnc | Dadansoddiad |
|---|---|---|
| 1 | Amaeth a Choedwigaeth | Mae angen dangosydd amgen ar gyfer yr amcan hwn |
| 2 | Teithio | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 3 | Nodweddion Arbennig | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 4 | Hamdden | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 5 | Ymwelwyr yn ystod adegau llai prysur | Mae angen mwy o ddata i lunio casgliad – data diweddaraf wedi'i gynnwys. |
| 6 | Addasu i Newid Hinsawdd | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 7 | Ffactorau sy'n cyfrannu at Newid Hinsawdd | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 8 | Cymunedau Cynaliadwy | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 9 | Mynediad at Dai | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 10 | Diwylliant Nodedig | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 11 | Mwynau | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 12 | Gwastraff | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 13 | Cyfleusterau Cymunedol | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 14 | Gwella Bioamrywiaeth | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. |
| 15 | Ansawdd Dŵr | Nid yw'r problemau presennol gyda ffosfforws mewn rhannau eraill o Sir Benfro'n effeithio ar strategaeth y Cynllun. |

## 3. Dangosyddion Monitro

3.1 Bydd y bennod yma o'r adroddiad monitro'n edrych ar sut y mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn perfformio yng nghyswllt dangosyddion monitro a ddisgrifir ym Mhennod 5 y Cynllun.

3.2 Yn gyntaf, rhestrir y canlyniadau allweddol bwriedig, cyn dadansoddi unrhyw faterion cyd-destun pwysig. Yn olaf, asesir polisïau'r Cynllun i weld ydyn nhw'n cael eu gweithredu fel y dylent, ac a yw'r amcanion yn cael eu cyflawni. I gynorthwyo i fonitro pa mor effeithiol yw'r polisïau a rhoi trosolwg ar berfformiad, mae'r dangosyddion allweddol a'r canlyniadau'n cael eu dangos drwy ddefnyddio'r system goleuadau traffig isod.

3.3 Mae'r dadansoddiad polisi hefyd yn cynnwys Trothbwyntiau i sicrhau y cyflawnir adolygiad manwl o effeithiolrwydd y polisi, ac unrhyw ddylanwadau allanol os cyrhaeddir y Trothbwynt.

| | |
|---|---|
| Targedau / amcanion heb eu cyflawni. | (gwyrdd) |
| Targedau heb eu cyflawni neu berfformiad gwael ond dim pryderon am weithrediad polisïau / amcanion. | (ambr) |
| Monitro'n awgrymu pryderon am weithrediad polisïau / amcanion. | (coch) |

3.4 Mae unrhyw weithredu i adolygu'r polisïau neu Gynllun, o ganlyniad i'r asesiad manwl, yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Gall y (camau) gweithredu gynnwys:

| | |
|---|---|
| Parhau i fonitro | Mae polisïau'r Cynllun Datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol. |
| Angen hyfforddiant | Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu'n cael eu gweithredu fel y dylent ac mae angen hyfforddiant swyddogion neu Aelodau. |
| Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) | Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu'n cael eu gweithredu fel y dylent ac mae angen canllawiau pellach, efallai drwy baratoi SPG ychwanegol. |
| Angen Ymchwil / Ymchwilio Pellach | Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu'n cael eu gweithredu fel y dylent ac mae angen ymchwil a / neu ymchwilio pellach. |
| Angen Adolygu'r Polisi | Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu'n cael eu gweithredu fel y dylent ac yn methu â darparu; efallai bod angen adolygu'r polisi dan sylw. |
| Adolygiad o'r Cynllun | Nid yw polisïau'r Cynllun Datblygu'n cael eu gweithredu fel y dylent ac nid yw strategaeth y Cynllun yn cael ei darparu, gan ysgogi adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad 4 blynedd statudol. |

## PWRPASAU A DYLETSWYDD Y PARC CENEDLAETHOL A'R STRATEGAETH OFODOL

### Canlyniadau allweddol


1) Mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wedi cael eu gwarchod a'u gwella.
2) Mae datblygu'n digwydd yn unol â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.
3) Mae datblygiadau a ganiateir yn helpu i gynnal cymunedau lleol.

### Context

3.5 **Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12**[1]

Cyhoeddwyd y rhifyn hwn ym mis Chwefror 2024. Mae paragraffau 4.2.25 – 4.2.10 nawr yn cynnwys yr angen i awdurdodau cynllunio ystyried materion lleol megis niferoedd ail gartrefi a llety gosod tymor byr wrth ddatblygu gofynion ar gyfer tai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy, gan gynnwys ystyried cyflwyno capiau neu nenfydau ar nifer yr ail gartrefi neu lety gosod tymor byr. Mae pennod yr Adroddiadau Monitro Blynyddol hwn ar Economi Ymwelwyr yn darparu rhagor o sylwebaeth am y mater hwn.

3.6 Mae Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru 12 yn gosod pwyslais cryfach ar fabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at Seilwaith Gwyrdd ac mae'n cynnwys y gofyniad bod datganiad seilwaith gwyrdd yn dod gyda phob cynnig datblygu a gofyniad i awdurdodau cynllunio greu asesiadau seilwaith gwyrdd a fyddai'n sylfaen i'r Cynllun Datblygu. Mae gofyn i bob cynnig datblygu ddangos budd net i fioamrywiaeth. Mae Polisi Cynllunio Cymru 12 hefyd yn darparu ymagwedd polisi gryfach tuag at ddiogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chanllawiau ar goed a choetiroedd, gan hyrwyddo plannu o'r newydd. Mae'r mesurau amgylcheddol a bioamrywiaeth hyn ym Mholisi Cynllunio Cymry yn ymateb i'r argyfwng natur a ddatganwyd yng Nghymru, sy'n cydnabod y dirywiad dychrynllyd mewn bioamrywiaeth, colli cynefinoedd a'r risg o golli rhywogaethau.





[1] Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)

3.7 **Arolwg o Gyfleusterau Cymunedol**
Ar gyfer adolygiad Cynllun Datblygu Lleol 1, gwnaed arolwg o gyfleusterau cymunedol mewn trefi a phentrefi yn 2017. Cafodd rhai gydag o leiaf 3 o gyfleusterau sydd i'w cael fel arfer mewn pentrefi bach eu dynodi'n 'Canolfannau Gwledig' yn LDP2. Mae Polisi 54 y Cynllun hefyd yn diogelu rhag colli cyfleusterau cymunedol yn ddiangen gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir at ddibenion cyflogaeth neu dai fforddiadwy lle y mae cyfiawnhad dros golli'r cyfleusterau.

3.8 Gwnaed ôl-arolwg yn 2022 wnaeth ganfod bod cyfleusterau cymwys wedi eu colli mewn dwy Ganolfan ranedig, lle'r oedd y cyfleusterau a gollwyd y tu allan i awdurdodaeth gynllunio'r Awdurdod hwn. Yn ôl arolwg pellach a wnaed yn 2023, mae tair Canolfan wedi colli eu siop leol er bod ganddynt dal ddigon o gyfleusterau i gymhwyso fel Canolfannau Gwledig. Mae dwy o'r Canolfannau'n rhai rhanedig gyda'r siop flaenorol y tu allan i awdurdodaeth yr Awdurdod hwn. Mae dwy Ganolfan hefyd wedi colli tafarn. Mae un o'r rhain yn llwyr o fewn y Parc Cenedlaethol ac yn cadw digon o wasanaethau i aros yn Ganolfan Wledig. Mae'r llall yn Ganolfan ranedig ac ni fyddai ganddi ddigon o wasanaethau i gymhwyso fel Canolfan Wledig o hyn ymlaen.

3.9 Nid yw'r newidiadau a gofnodir yn sylweddol eu natur. Bydd adolygiad o gyfleusterau cymunedol presennol yn cael ei gynnal fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 3. Bydd colledion neu gynnydd cofnodedig mewn cyfleusterau cymunedol yn llywio strategaeth y cynllun newydd o ran a ddylid ychwanegu unrhyw Ganolfannau Gwledig newydd at y cynllun diwygiedig ynteu a ddylid tynnu unrhyw Ganolfannau Gwledig o'r fath ohono.

## Perfformiad Polisïau




**Pwrpas 1:** Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal.

**Pwrpas 2:** Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd gael deall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

**Dyletswydd:** Ceisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol y Parc Cenedlaethol wrth weithio tuag at gyflawni ein pwrpasau.

Yn achos datblygiadau lle y mae Egwyddor Sandford yn codi – os yw'r gwrthdaro rhwng dau bwrpas y Parc Cenedlaethol yn annatrys - rhaid i'r pwrpas cyntaf gael blaenoriaeth. Rhaid cyflawni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mewn Parciau Cenedlaethol drwy weithio tuag at y pwrpasau hyn.

### Dangosydd 1

**Penderfyniadau sy'n groes i'r argymhelliad**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: 3% o benderfyniadau cynllunio [2] wedi eu penderfynu'n groes i argymhelliad mewn unrhyw flwyddyn.**

| Blwyddyn | Cyfanswm Penderfyniadau | Yn groes i' r | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021-2022** | 363 | 1 | 3% | 0% | 0% | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 391 | 4 | 3% | 0% | 1% | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt – wele'r AMB 2 am ddadansoddiad. | |
| **2023-2024** | 322 | 1 | 3% | 0% | 0% | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt – wele'r AMB 3 am ddadansoddiad. | |

[2] Ceisiadau llawn, amlinellol neu faterion a gedwir yn ôl.

| Blwyddyn | Cyfanswm Penderfyniadau | Yn groes i'r | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2024-2025** | 237 | 1 | 3% | 0% | 0% | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt - – wele'r dadansoddiad ar y dudalen nesaf. | ● (gwyrdd) |

**Dadansoddiad 2024-2025:**

Argymhellwyd y dylid gwrthod un cais gan ei fod yn groes i Bolisïau 1, 7, 8, 14, 29 a 30 (gweler Dangosyddion 2, 3, 4 a 6).

Ni thorrwyd y trothwy 3% ac ni thanseiliwyd Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

## Dangosydd 2

**Polisi 1 penderfyniadau sy'n groes i Egwyddor Sandford neu sy'n arwain at wrthdaro rhwng y ddyletswydd a'r pwrpasau.**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: 0 o geisiadau'n cael eu cymeradwyo'n groes i Egwyddor Sandford mewn unrhyw flwyddyn.**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 1 | 0 | 1 | Angen ymchwil / ymchwilio pellach | Gweler AMB 1 am ddadansoddiad | ● (coch) |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 3 | Angen hyfforddiant | Gweler AMB 2 am ddadansoddiad | ● (coch) |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● (gwyrdd) |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 1 | Parhau i fonitro | Cyrhaeddwyd y trothwy – gweler y dadansoddiad isod[3] | ● (gwyrdd) |

[3] Ardroddiad y Swyddogion NP_24_0596_FUL.pdf a Chofnodion Cyrfarfod y Pwyllgor DEVELOPMENT MANAGEMENT COMMITTEE eitem 6 (c).

**Dadansoddiad 2024-2025:**

Argymhellodd y Swyddogion y dylid gwrthod y cais oherwydd ystryriwyd y byddai'n gorddatblygu'r safle gan achosi niwed i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Cymeradwywyd y cais gan yr aelodau ar sail dehongliad gwahanol o'r polisi mewn perthynas â gwarchod a chyfoethogi'r Parc Cenedlaethol. Ni chafodd Egwyddor Sandford ei galw i rym.

**Dangosydd 3**

**Penderfyniadau sy'n groes i Bolisi 7, Polisi 43, Polisi 44, Polisi 48, Polisi 54 – Blaenoriaethu Defnyddiau Gan y Gymuned**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 2 gais cynllunio'n groes i bolisi mewn unrhyw flwyddyn.**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2022-2023** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2023-2024** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2024-2025** | 2 | 0 | 1 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |

## 2A Nodweddion arbennig

### Canlyniadau allweddol

1) Mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wedi cael eu gwarchod a'u gwella.

### Cyd-Destun

3.10 Cafodd Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2025-2029, gyda nodweddion arbennig diwygiedig, ei fabwysiadu ar 26 Mawrth 2025. Caiff y Nodweddion Arbennig sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o'r cyfnod monitro hwn eu rhestru yn y tabl isod. Rhestrir y Nodweddion Arbennig diwygiedig ar dudalen 13.

### Perfformiad Polisïau

**Nodweddion Arbennig**

| | |
|---|---|
| Ysblander Arfordirol | Cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth |
| Daeareg Amrywiol | Ynysoedd |
| Amrywiaeth Tirlun | Hygyrchedd |
| Cymeriad anheddiad unigryw | Lle i anadlu |
| Amgylchedd hanesyddol cyfoethog | Remoteness, tranquility and wildness |
| Treftadaeth ddiwylliannol | Amrywiaeth profiadau a chyfuniad o nodweddion unigol |

**Dangosydd 4**

**Penderfyniadau sy'n groes i Bolisi 8 Nodweddion Arbennig**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 2 gais cynllunio'n groes i unrhyw faen prawf mewn unrhyw flwyddyn.**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021-2022** | 2 | 0 | 1 | Angen ymchwil / ymchwilio pellach | Gweler AMB 1 am ddadansoddiad. | |
| **2022-2023** | 2 | 0 | 3 | Angen hyfforddiant. | Gweler AMB 2 am ddadansoddiad. | |
| **2023-2024** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 2 | 0 | 1 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

**Dadansoddiad 2024-2025:**

Argymhellodd y Swyddogion y dylid gwrthod y cais oherwydd ystryriwyd y byddai'n gorddatblygu'r safle gan achosi niwed i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Cymeradwywyd y cais gan yr aelodau ar sail dehongliad gwahanol o'r polisi mewn perthynas â gwarchod a chyfoethogi'r Parc Cenedlaethol. Ni chafodd Egwyddor Sandford ei galw i rym (gweler troednodyn 3 ar gyfer Ardroddiad y Swyddogion a Chofnodion Cyrfarfod y Pwyllgor)

**Cynllun Partneriaeth 2025-2029**

Cafodd Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol (y Cynllun Rheoli o'r blaen) ei fabwysiadu gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 26 Mawrth 2025. Mewn ymgynghoriad â phartneriaid a'r cyhoedd, cafodd Nodweddion Arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro eu diwygio a byddant yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn ychwanegol at Nodweddion Arbennig Polisi 8 Cynllun Datblygu Lleol 2. Dyma nodweddion arbennig Parc Cenedalethol Arfordir Penfro:

- Tirweddau a morluniau ac iddyn nhw amrywiaeth ac ansawdd eithriadol
- Golygfeydd arfordirol rhagorol
- Golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored
- Traethau
- Daeareg a geomorffoleg ysblennydd
- Bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol
- Llonyddwch, seinweddau a'r gwyllt
- Awyr dywyll
- Treftadaeth a diwylliant cyfoethog
- Y Gymraeg a thafodieithoedd Sir Benfro
- Patrymau hanesyddol aneddiadau ac adeiladau
- Patrymau hanesyddol defnyddio tir a ffiniau traddodiadol
- Cyfleoedd ardderchog I fwynhau a phrofi'r Parc Cenedlaethol
- Rhwydwaith helaeth o Hawliau Tramwy
- Cyfuniad o'r rhinweddau arbennig
- Ymdeilad o gymuned a gofal

## Dangosydd 5


**Penderfyniadau sy'n groes i Bolisi 13 yr iaith Gymraeg**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 2 gais cynllunio'n groes i'r polisi mewn unrhyw flwyddyn.**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt | |
| **2022-2023** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt | |
| **2023-2024** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-20252** | 0 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

Mae Polisi 13 yn LDP2 yn diogelu rhag datblygiadau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar yr Iaith Gymraeg. Mae'r polisi'n berthnasol i ddatblygiadau o 10 neu fwy o dai; 1000 metr sgwâr o lawr neu sy'n fwy nag 1 hectar o faint sydd y tu allan i ffiniau'r Ganolfan mewn Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg, a ddangosir ar y map isod. Ni phenderfynwyd unrhyw geisiadau'n groes i bolisi yn ystod y cyfnod monitro.




Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg

**Dangosydd 6**

**Penderfyniadau sy'n groes i Bolisi 14 Tirlun a Morlun**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 2 gais cynllunio'n groes i'r polisi a'i ganllawiau atodol mewn unrhyw flwyddyn.**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021-2022** | 2 | 0 | 1 | Angen ymchwil / ymchwilio pellach. | Gweler AMB 1 am ddadansoddiad. | 🔴 |
| **2022-2023** | 2 | 0 | 1 | Angen hyfforddiant. | Gweler AMB 2 am ddadansoddiad. | 🔴 |
| **2023-2024** | 2 | 0 | 1 | Parhau i fonitro | Gweler AMB 3 am ddadansoddiad. | 🟢 |
| **2024-2025** | 2 | 0 | 1 | Parhau i fonitro | Argymhellodd y Swyddogion y dylid gwrthod y cais oherwydd ystyriwyd y byddai'n gorddatblygu'r safle gan achosi niwed i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Cymeradwywyd y cais gan yr aelodau ar sail dehongliad gwahanol o'r polisi mewn perthynas â'r ffaith na fyddai'r datbygiad yn niwedio'r nodweddion arbenig (gweler troednodyn 3 ar gyfer Ardorddiad y Swyddogion a Chofnodion Cyfarfod y Pwyllgor). | 🟢 |

## Dangosydd 7

**Penderfyniadau sy'n groes i Bolisi 15 neu Bolisi 16**

**Y targed yw 0 % colli tir maes glas [4], mannau agored[5], lleindiroedd.**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 1 cais cynllunio'n groes i'r argymhelliad mewn unrhyw flwyddyn.**

## Dangosydd 7 Tir Maes Glas

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

## Dangosydd 7 Mannau Agored

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

[4] Heblaw am dir wedi'i ryddhau ynol â pholisïau'r Cynllun.

[5] Heblaw lle y gellir eu cadw, gwella neu ddarparu mannau agored eraill.

## Dangosydd 7 Lleindiroedd

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

## 2B Datblygiadau mawr, potensial ar gyfer twf

### Canlyniadau allweddol

1) Dim datblygiadau mawr newydd yn y Parc Cenedlaethol oni bai mewn amgylchiadau eithriadol.
2) Darparu cyfleusterau gwastraff sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf.

### Cyd-Destun

3.11 **Mwynau**: Bydd y gwaith blynyddol o fonitro mwynau wrth gefn a'r 2il adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTR) ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru'n parhau i oleuo penderfyniadau cynllunio rhanbarthol a chenedlaethol. Cafodd yr 2il adolygiad ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2020 a'i nodi gan Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Pwrpas yr RTS yw sicrhau bod cyflenwad digonol a chyson o agregau ar gael yn barhaus ar draws Cymru (a thu hwnt yn achos deunyddiau sy'n cael eu hallforio) gan ystyried yr amcanion allweddol o gyflenwad mwynau cynaliadwy'n unol â Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro'n parhau i weithio ag awdurdodau cyfagos ar Ddatganiad o Gydweithrediad Is-Ranbarthol ar gyfer is-ranbarth Gorllewin Cymru, ar gyfer tywod a gro.

3.12 **Gwastraff:** Mae'r pedweryddydd adroddiad ar gyfer rhanbarth newydd Canolbarth a De-Orllewin Cymru - yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff – yn trafod y cyfnod 2024-25. Er mwyn gallu monitro gweithrediad 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned (TZW, 201) – Dogfen y Strategaeth Wastraff Drosfwaol ar gyfer Cymru', mae angen gwybodaeth am gyfleusterau rheoli gwastraff / adennill adnoddau. Cyflwynwyd yr adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. Nid yw wedi'i gyhoeddi eto ond mae'n tynnu sylw at y canfyddiadau pwysig canlynol:

- Ar y cyfan, mae'r rhanbarth yn cwrdd â'i thargedau o leihau gwastraff wedi'i gasglu gan awdurdodau lleol, cynyddu ailgylchu a chompostio a lleihau gwastraff trefol bioddiraddadwy sy'n cael ei dirlenwi, ailddefnyddio, adennill ac ailgylchu gwastraff diwydiannol a masnachol a gwastraff adeiladu a dymchwel, a lleihau faint o wastraff peryglus sy'n cael ei dirlenwi.

- Mae cynnydd cyson wedi bod mewn ailgylchu a chompostio dros y blynyddoedd. Mae rhanbarth Canolbarth a De-Orllewin Cymru wedi perfformio'n gyson well na Chymru gyfan dros y rhan fwyaf o'r naw mlynedd ddiwethaf, gyda tharged Tuag at Ddyfodol Diwastraff o ailgylchu o leiaf 64% erbyn 2019/20 wedi'i gyrraedd yn rhanbarthol ac ar lefel Cymru. Er y gwelir lleihad bachar lefel ranbarthol yng nghyfnod adrodd 2021-22, mae'r targed ar gyfer 2024-25 – sef ailgykchu 70% - eisoes wedi cael ei gyflawni ar y cyd yn y rhanbarth yn ystod 2023-24.

- 2.7 mlynedd yn ynig yw'r capasiti tirlenwi rhagfynegol sy'n weddill – mae'r ffigur hwn bellach islaw'r trothwy 5 mlynedd yn Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff - y trothwy ar gyfer unrhyw weithredu a allai fod ei angen i hwyluso darparu safleoedd tirlenwi yn y dyfodol – byddai'r sefyllfa'n awgrymu y dylai'r rhanddeiliaid

perthnasol ystyried trafodaethau rhagarweiniol i drafod gweithredu priodol. Byddai hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol (timau Cynllunio a Gwastraff) a'r diwydiant gwastraff.

- Mae Sir Benfro yn dal i fod ymhlith dim ond y4 o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi cyrraedd targed 2024/25, sef sicrhau cyfraddau ailgylchu o 70%, gan gyflawni dros 70% yn ystod y 5 cyfnod monitro diwethaf. Y ffigur diweddaraf yw 72% yn 2023/24, sef cynnydd o gymharu â 71.6% yn 2022/23.

## Perfformiad Polisïau

**Dangosydd 8**

**Cymeradwyo datblygiadau mawr[6] oni bai y gellir profi amgylchiadau eithriadol**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 1 cais lle na ddangoswyd unrhyw amgylchiadau eithriadol**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |

[6] Mae 'datblygiad mawr' ac 'amgylchiadau eithriadol' wedi eu diffinio ym Mholisi Cynllunio Cymru.

## Dangosydd 9

**Cymeradwyo datblygiadau mwynau[7] oni bai y gellir profi amgylchiadau eithriadol**

**y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 1 cais lle na ddangoswyd unrhyw amgylchiadau eithriadol**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt.[8] | ● |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |

[7] Diffinir beth yw ‘amgylchiadau eithriadol’ mewn Parciau Cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru.

[8] Amrywiad ar amod o 12 mlynedd arall ar gyfer gwaith tyllu, adfer ac ôl-ofal mewn chwarel wedi cael ei gymeradwyo. Nid yn safle mwynau newydd na’n estyniad ar un felly ni chroeswyd y trothbwynt.

## Dangosydd 10

**Penderfyniadau sy'n groes i Bolisi 27, 28 cyfleusterau rheoli gwastraff**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: cymeradwyo 2 gais cynllunio'n groes i bolisi**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2022-2023** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2023-2024** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |
| **2024-2025** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | ● |

## 2C Newid hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

### Canlyniadau allweddol

1) Mae'r datblygiad yn cyflawni safonau uchel o ran dylunio cynaliadwy. Mae tai newydd yn cwrdd â'r safonau a nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol.
2) Mae'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
3) Dim datblygiadau bregus iawn mewn ardaloedd gyda pherygl llifogydd ar hyn o bryd nac yn y tymor hir, a dim effeithiau negyddol mewn mannau eraill.

### Cyd-Destun

3.13 **Newid yn yr Hinsawdd:** Yn dilyn datgan argyfwng Newid  Hinsawdd yng Nghymru yn 2019, cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd ei adroddiad cynnydd cyntaf ynglŷn â thargedau lleihau allyriadau, “Lleihau Allyriadau Carbon yng Nghymru (2020)”. Mae'r adroddiad yn cydnabod y camau gweithredu a gymerwyd yng Nghymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys hyrwyddo cerbydau trydan a thrafnidiaeth gyhoeddus, gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau, gwella cyfraddau ailgylchu a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i gyrraedd sero net o ran allyriadau erbyn 2050 drwy gyhoeddi Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021. Mae Adolygiad o Dargedau Ynni Cymru 2003 yn gosod targedau mwy uchelgeisiol, gyda tharged o 100% trydan adnewyddadwy erbyn 2035. Mae angen cynllunio er mwyn sicrhau y ceir mesurau lliniaru i fynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd a mesurau addasu i ddelio ag effeithiau newidiadau i'r tywydd a'r hinsawdd er mwyn sicrhau bod seilwaith yn wydn

3.14 **Llifogydd:** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y fersiwn ddiweddaraf o TAN15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar 31 Mawrth 2025. Dyma'r diweddariad cyntaf i TAN15 ers iddo gael ei ryddhau yn 2004. Daeth y TAN15 diwygiedig i rym yn syth, gan ad-drefnu'r fframwaith polisi presennol ar gyfer rheoli llifogydd. Fel rhan o'r diweddariad hwn, tynnwyd TAN14: Cynllunio'r Arfordir yn ôl, a bellach mae ei ddarpariaethau ar erydu arfordirol wedi cael eu hymgorffori yn y fersiwn ddiweddaraf o TAN15. Dylid darllen y TAN ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, a dylai awdurdodau cynllunio ei ystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Yn bwysig, mae'r Mapiau Cyngor Datblygu, a arferai orwedd ochr yn ochr â'r TAN15 a ddisodlwyd, wedi cael eu dirymu, a bellach bydd yr holl geisiadau'n cael eu hasesu yn erbyn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, sy'n cynrychioli'r wybodaeth orau sydd ar gael.

3.15 Mae newidiadau newydd i TAN15 yn cynnwys gwahaniaethu rhwng datblygiadau newydd ac ailddatblygiadau, y gwahanol ddulliau mewn perthynas â safleoedd tir llwyd a safleoedd maes glas, a'r dull mwy hyblyg o hwyluso adfywio, os yw'n ategu'r gwaith o weithredu Cynlluniau Datblygu Lleol neu gynlluniau adfywio. Mae'r TAN yn dal i gynnwys ystyriaethau o ran y graddau y mae gwahanol fathau o ddatblygiadau yn agored i niwed, gan amrywio o'r llai bregus i'r bregus iawn. Nid yw'r diffiniadau hyn wedi newid ers y TAN blaenorol.

Perfformiad Polisïau

**Dangosydd 11**

**Penderfyniadau sy'n groes i Bolisi 29 'Dylunio Cynaliadwy' – meini prawf C), E), G), H) neu I)**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: cymeradwyo 3 chais cynllunio'n groes i unrhyw un o feini prawf y polisi**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2023-2024** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

**Dangosydd 12**

**Capasiti ynni adnewyddadwy cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd.**

**Y targed yw 9.8GWh ar gyfer gwres adnewyddadwy [9]**

| Blwyddyn | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Caniatadau cynllunio i gyfrannu at darged gwres adnewyddadwy o 9.8 GWh ar gyfer y Parc Cenedlaethol. | 0.46 GWh o 5 caniatâd ers 2016 (dyddiad cychwynnol yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy Diweddaraf). | Parhau i fonitro. | Mae cynnydd bach wedi bod mewn capasiti'n dilyn rhoi caniatâd i gynlluniau domestig cymharol fach. Mae ynni adnewyddadwy o ficro-gynlluniau adnewyddadwy ar gyfer cartrefi, a chynlluniau annomestig bach, fel arfer yn elwa o hawliau Datblygiad a Ganiateir ac felly heb ei gynnwys yng nghyfanswm y capasiti cynhyrchu gwres. | ● |
| **2022-2023** | Fel uchod. | 0.495 GWh o 7 caniatâd ers 2016 | Parhau i fonitro | Fel uchod. | ● |
| **2023-2024** | Fel uchod.. | 0.506 GWh o 8 caniatâd ers 2016 | Parhau i fonitro | Fel uchod. | ● |
| **2024-2025** | Fel uchod. | 0.636 GWh o 13 caniatâd ers 2016 | Parhau i fonitro | Fel uchod | ● |

[9] Dyhead yw'r targed hwn ac mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau yn y dyfodol fel newidiadau polisi gan lywodraeth, cyllid / prinder cyllid, yn ogystal â ffactorau allanol eraill.

## Dangosydd 13

**Capasiti ynni adnewyddadwy cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd ac a gwblhawyd.**

**Y targed yw 38.9GWh ar gyfer trydan adnewyddadwy.[10]**

| Blwyddyn | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|
| **2021-2022** | Caniatadau Cynllunio i gyfrannu at darged trydan adnewyddadwy o 38.9 GWh ar gyfer y Parc Cenedlaethol . | 0.035 GWh o 9 caniatâd ers 2016 (dyddiad cychwynnol yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy Diweddaraf). | Parhau i fonitro. | Mae cynnydd bach wedi bod mewn capasiti'n dilyn rhoi caniatâd i gynlluniau domestig cymharol fach. Mae ynni adnewyddadwy o ficro-gynlluniau adnewyddadwy ar gyfer cartrefi, a chynlluniau annomestig bach, fel arfer yn elwa o hawliau Datblygiad a Ganiateir ac felly heb ei gynnwys yng nghyfanswm y capasiti cynhyrchu trydan. | |
| **2022-2023** | Fel uchod. | 0.067 GWh o 149 caniatâd ers 2016 | Parhau i fonitro. | Fel uchod. | |
| **2023-2024** | Fel uchod. | 0.269 GWh o 20 caniatâd ers 2016 | Parhau i fonitro. | Fel uchod. | |
| **2024-2025** | Fel uchod. | 0.309 GWh o 27 caniatâd ers 2016 | Parhau i fonitro. | Fel uchod. | |

[10] Dyhead yw'r targed hwn ac mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau yn y dyfodol fel newidiadau polisi gan lywodraeth, cyllid / prinder cyllid, yn ogystal â ffactorau allanol eraill

| Dangosydd 14 |
|---|
| **Mae penderfyniadau'n gyson â pholisi ynni adnewyddadwy'r awdurdod a gefnogir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol ar ynni adnewyddadwy a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar effaith gronnus tyrbinau gwynt ar y tirlun ac amwynder gweledol** |
| **Y targed yw 0 o geisiadau wedi eu cymeradwyo'n groes i bolisi** |
| **Trothbwynt: 3 neu fwy o benderfyniadau'n groes i bolisi 33 ar ynni adnewyddadwy ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol.** |

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2023-2024** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 3 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

**Dangosydd 15**

**Llifogydd: faint o ddatblygu (o dan TAN 15 paragraff 5.1 categori datblygu) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 heb fodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.2 I-V)**

**Y targed yw peidio â chaniatáu datblygu lle y byddai'r senario tymor hir (yn y 100 mlynedd nesaf) yn methu'r profion a osodir.**

**Trothbwynt: 1 Datblygiad yn cael ei ganiatáu'n groes i Bolisi 34**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021-2022** | 1 | 0 | 1 | Angen ymchwil / ymchwilio pellach | Gweler AMB 1 am ddadansoddiad. | (red) |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 2 | Angen hyfforddiant | Gweler AMB 2 am ddadansoddiad. | (red) |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | (green) |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | (green) |

## 2D Yr economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio gwledig

### Canlyniadau Allweddol

1) Mae'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at ddarparu cyflogaeth newydd a safleoedd presennol yn cael eu diogelu.
2) Mae ystod o lety gwyliau ar gael i gwrdd ag amrywiol anghenion ymwelwyr.
3) Nid yw gweithgareddau hamdden ac ymwelwyr yn achosi difrod i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

### Cyd-Destun

3.16 **Llywodraeth Cymru a'r polisi ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.** Ar 28 Medi 2022, cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru** [11]**:**

- Newidiadau i reoliadau cynllunio. Roedd y rhain yn cyflwyno tri dosbarth defnydd cynllunio newydd – prif gartref (C3), ail gartref (C5) a llety gwyliau tymor byr (C6). Bydd awdurdodau cynllunio lleol, lle y medrant ddangos tystiolaeth, yn gallu diwygio'r system gynllunio fel bod angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o un dosbarth i'r llall. Mae hefyd wedi cyflwyno newidiadau i'r polisi cynllunio cenedlaethol fel y gall awdurdodau lleol reoli nifer yr ail gartrefi a'r unedau llety gwyliau mewn unrhyw gymuned.

3.17 Bu Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried gosod amodau cynllunio ar geisiadau am ganiatâd cynllunio fesul achos drwy'r gweithdrefnau rheoli datblygu arferol.[12] Wrth ystyried pa mor briodol ydy gosod amodau preswylio, mae'r swyddogion yn ystyried sut mae Polisi Strategol 46 (Tai), Polisi 40 (Datblygiadau Hunanddarpar), Polisi 47 (Dyraniadau Tai neu Dir sydd â Chaniatâd Cynllunio) a Pholisi 48 (Tai Fforddiadwy) yn berthnasol. Yn ogystal, mae swyddogion yn cynnal dadansoddiad desg ar fynychder ail gartrefi a llety gosod gwyliau sydd yn cynnwys dadansoddi clwstwr a'r mynychder mewn datblygiadau tebyg yn yr ardal yn ogystal â datblygiadau diweddar Canlyniad dadansoddiadau o'r fath sydd yn pennu p'un ai y rhoddir amod preswylio C3 ar ganiatâd ai peidio.

3.18 **Datblygiadau Gwersylla a Charafanau:** Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2, daeth newid polisi ar gyfer datblygiadau gwersylla a charafanau. Roedd Cynllun Datblygu Lleol 1 wedi parhau gyda pholisi hirsefydlog o ddal yn ôl ar geisiadau pellach am safleoedd gwersylla a charafanau oherwydd yr holl sydd eisoes yn y Parc. Wrth weithredu polisi Cynllun Datblygu Lleol 1, cododd broblemau gyda safleoedd gwersylla Tystysgrif Eithrio a safleoedd 28 diwrnod, sydd y tu allan i reolaeth gynllunio. Roedd nifer gynyddol o'r safleoedd hyn yn ymddangos yn y Parc Cenedlaethol, gyda Thystysgrif Eithrio'n yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan dirfeddianwyr y gwrthodwyd caniatâd cynllunio iddynt neu a oedd wedi derbyn cyngor cyn-cais y byddai'r safle'n groes i bolisi. Roedd yr holl safleoedd 28 diwrnod hefyd yn fwy nag y gallai'r Awdurdod ei fonitro ac nid yw'r broses orfodaeth hirfaith yn effeithiol ar gyfer delio â safleoedd sy'n gweithredu am fwy na 28 diwrnod. Roedd yr Awdurdod felly'n derbyn nifer gynyddol o geisiadau Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanau mawr.

[11] Datganiad Ysgrifenedig: Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gosod tymor byr

[12] National Park Authority Report: The implications of recent Welsh Government Legislative and Planning Policy Changes in relation to Second Homes and Short-term Lets

3.19 Fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2, yn 2015 gwnaed astudiaeth i ystyried a allai tirlun y Parc Cenedlaethol dderbyn mwy o safleoedd gwersylla a charafanau heb wneud niwed i'w nodweddion arbennig. Fe wnaeth yr astudiaeth oleuo newidiadau i'r polisi ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 ac mae hefyd wedi'i chyhoeddi fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Gellir crynhoi polisi Cynllun Datblygu Lleol 2 ar ddatblygiadau gwersylla a charafanau fel un sy'n caniatáu ychydig o ddatblygiadau newydd mewn lleoliadau priodol – fel arfer safleoedd bach i ffwrdd o'r arfordir a Bryniau'r Preseli.

3.20 Mae angen monitro canlyniad llacio'r sefyllfa bolisi ar safleoedd newydd. Mae mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol 2 wedi cyd-ddigwydd â phandemig Covid a arweiniodd at newidiadau sylweddol i'r economi ymwelwyr yn Sir Benfro a chynnydd dramatig yn nifer yr ymwelwyr sy'n defnyddio llety gwersylla a charafanau. Mae hyn wedi parhau'r galw am safleoedd ychwanegol – yn bennaf drwy'r broses Dystysgrif ond hefyd ar gyfer 'hap-wersylla', yn bennaf wrth yr arfordir, traethau, cilfannau ffyrdd, meysydd parcio gwledig ac wrth olygfannau.

3.21 Yn ystod y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd 3 chais cynllunio ar gyfer datblygu meysydd gwersylla, carafannau a chabanau gwyliau. Roedd un ar gyfer Tystysgrif Cyfreithlondeb gogyfer defnyddio pebyll a charafannau teithiol ar gyfer gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Cafodd y disgrifiad o'r cynnig ei ddiwygio yn ystod y broses gynllunio er mwyn eithrio'r arfer o leoli carafannau statig ar y safle oherwydd pryderon yn ymwneud â'r dirwedd. Roedd cais arall yn ymwneud â defnyddio tir gogyfer hyd at 40 o leiniau ar gyfer carafannau, cartrefi modur, cerbydau gwersylla a phebyll ar safle a ddefnyddid gynt fel safle 28 diwrnod yn 2020 ac fel safle trwyddedig, esempt yn 2021. Cyfyngir nifer y carafannau a ganiateir ar y safle hwn ar unrhyw adeg i 20. Roedd y cais terfynol ar gyfer lleoli un caban bugail gogyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau.

3.22 Mae'r rheoliadau ar gyfer safleoedd gwersylla a charafanau yn parhau i gael eu hanwybyddu'n helaeth y tu hwnt i reolaeth cynllunio yn y Parc Cenedlaethol gyda safleoedd 28-diwrnod a safleoedd Tystysgrifau Eithrio yn geithredu ymhell y tu hwnt i'r cyfnod datblygu a ganiateir iddynt. Mae monitro'r safleoedd hyn yn parhau i herio adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod.

3.23 Rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024, cynhaliodd yr Awdurdod nifer o weithdai a chyfarfodydd gydag Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Ymgymerwyr Statudol, Rhanddeiliaid Twristiaeth a Llywodraeth Cymru er mwyn trafod a ddylai'r Awdurdod ystyried gosod Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) i gael gwared â hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd carafannau a gwersylla 28 diwrnod a chyflwyno Cod Ymddygiad gwirfoddol ar gyfer safleoedd Sefydliadau Esempt. Yn ystod haf 2024, cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol gyda'r cyhoedd ynglŷn â'r opsiynau a ffefrir a chwblhawyd Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ym mis Rhagfyr 2024. Rhoddwyd rhybudd ynglŷn â'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) gyda chyfnod o chwe wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau ffurfiol, rhwng 10 Ionawr a 21 Chwefror 2025. Cadarnhawyd y Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) gan Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 7 Mai 2025 a bydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2026.

Perfformiad Polisïau

## Dangosydd 16

**Penderfyniadau'n ymwneud â gweithgareddau hamdden sy'n groes i Bolisi 38**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 2 gais cynllunio'n groes i'r polisi ynghyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer gweithgareddau hamdden**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2023-2024** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 2 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

## Dangosydd 17

**Polisi 39 penderfyniadau ar golli gwestai**

**Y targed yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 1 cais cynllunio’n groes i’r polisi**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2022-2023** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2023-2024** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |
| **2024-2025** | 1 | 0 | 0 | Parhau i fonitro. | Perfformiad yn parhau i fod o dan y Trothbwynt. | |

**Dangosydd 18**

**Polisi 40 blaenoriaethu codi tai fforddiadwy dros unedau hunan-ddarpar**

**Y targed.yw 0**

**Trothbwynt: Cymeradwyo 2 gais cynllunio sy'n groes i Bolisi 40 mewn unrhyw flwyddyn**

| Blwyddyn | Trothbwynt | Targed | Perfformiad | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NP/24/0126/FUL: Dymchwel cegin bresennol. Addasu ffenestri presennol ac adeiladu estyniad.** | Gwrthodiad Dirprwyedig:<br><br>Nid ystyriwyd bod y cynnig yn cyd-fynd yn dda â dyluniad, ffurf na chymeriad yr annedd. Ystyriwyd y byddai'n amharu ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ac y byddai'n arwain at niweidio amwynderau gweledol.<br><br>Ystyriwyd bod y cynnig yn groes i Bolisïau 1 (Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol), 8 (Nodweddion Arbennig), 14 (Gwarchod a Gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), 29 (Dylunio Cynaliadwy) a 30 (Amwynderau). | **CAS-03912-Z4V6P9**<br>**Gwrthodwyd 10/03/2025**<br><br>Er nad oedd y cynnig yn gwrthdaro â Pholisïau 8 ac 14, daeth yr Arolygydd i'r casgliad y byddai'n cael effaith niweidiol ar gymeriad a gwedd yr ardal amgylchynol, yn groes i amcanion Polisïau 29 a 30 sy'n mynnu y dylai datblygiadau fod wedi'u cynllunio'n dda mewn perthynas â lleoliad a gwahanolrwydd ac y dylai eu graddfa gyd-fynd â'r ardal amgylchynol. |

**NP/24/0126/FUL: Mae gwrthod yr apêl gan gyfeirio at Bolisïau 29 a 30 yn dangos bod y polisïau hyn yn gweithredu'n effeithiol.**

| Manylion y Cais | Rhesymau dros Wrthod | Penderfyniad Apêl |
| --- | --- | --- |
| **NP/24/0204/FUL: Codi Pod Arian Cymunedol** | Gwrthodiad Dirprwyedig:<br><br>Ystyriwyd y byddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar nodweddion arbennig a hanesyddol y Parc Cenedlaethol yn y lleoliad hwn.<br>Hefyd, ystyriwyd y byddai'r cynnig yn ymwthiol yn weledol, ystyriwyd na fyddai'n cynnig budd net i fioamrywiaeth, ac ystyriwyd bod ei raddfa, ei leoliad a'i ddyluniad yn groes i'r polisi manwerthu.<br><br>Ystyriwyd bod y cynnig yn groes i Bolisïau 1 (Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol), 8 (Nodweddion Arbennig), 14 (Gwarchod a Gwella Parc | **CAS-03782-L1M6C7**<br>**Gwrthodwyd 26/03/2025**<br><br>Daeth yr Arolygydd i'r casgliad y byddai'r pod arian yn achosi niwed i arwyddocâd heneb gofrestredig, na fyddai'n diogelu cymeriad na gwedd yr Ardal Gadwraeth, ac y byddai'n achosi niwed i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad bod y cynnig yn groes i Bolisïau 1, 8, 14, 29, 30, 56 a 57.<br><br>Gwrthodwyd cais am gostau, oherwydd daeth yr Arolygydd i'r casgliad na ddangoswyd bod yr Awdurdod wedi ymddwyn mewn modd afresymol gan arwain at gostau diangen neu afraid. |

| Manylion y Cais | Rhesymau dros Wrthod | Penderfyniad Apêl |
|---|---|---|
| | Cenedlaethol Arfordir Penfro), 29 (Dylunio Cynaliadwy), 30 Amwynderau), 56 (Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol) a 57 (Canolfannau Siopa Tref a Rhanbarth). | |

**NP/24/0204/FUL: Mae gwrthod yr apêl gan gyfeirio at Bolisïau 1, 8, 14, 29, 30, 56 a 57 yn dangos bod y polisïau hyn yn gweithredu'n effeithiol.**

**Apeliadau Gorfodi**

| Manylion y Cais | Rhesymau dros Orfodi | Penderfyniad Apêl |
|---|---|---|
| **Hysbysiad Gorfodi EC21/0041 – Torri mesur rheoli cynllunio: gosod pedwar o oleuadau to a chodi balwstrad gwydr ar hyd wal blaengwrt terfyn blaen.** | Ystyriwyd bod torri'r mesur cynllunio wedi achosi niwed i amwynder y Parc Cenedlaethol.<br><br>Ystyrir bod y datblygiad yn groes i Bolisïau 1 (Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol), 8 (Nodweddion Arbennig), 14 (Gwarchod a Gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) a 29 (Dylunio Cynaliadwy). | **CAS-02702-F3N3G4**<br>**Caniatawyd 03/02/2025**<br><br>Daeth yr Arolygydd i'r casgliad na chaiff y datblygiad fawr ddim effaith oddi mewn i'r Ardal Gadwraeth ehangach ac nad yw'n newid cymeriad cyffredinol y pentref. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad nad oedd y datblygiad yn gwrthdaro â Pholisïau 1, 8 nac 14.<br><br>Diddymwyd yr hysbysiad gorfodi a rhoddwyd caniatâd cynllunio. |

**EC21/0041: Roedd yr Arolygydd o'r farn nad oedd y datblygiad yn gwneud fawr ddim niwed i'r Ardal Gadwraeth. Nid yw'r penderfyniad apelio yn amau priodoldeb nac effeithiolrwydd y polisïau ac ni cheir unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen adolygu'r polisïau'n ddi-oed.**

| Manylion y Cais | Rhesymau dros Orfodi | Penderfyniad Apêl |
|---|---|---|
| **Hysbysiad Gorfodi EC24/0029 – Torri mesur rheoli cynllunio: Heb ganiatâd cynllunio, gwneud newid pwysig i'r defnydd a wneir o'r tir – o goetir i goetir defnydd cymysg a defnydd preswyl.** | Gofyniad i roi'r gorau'n barhaol i ddefnyddio'r tir ar gyfer lleoli cartref symudol a charafán, a chael gwared yn barhaol â chartref symudol a charafán ac adfer y tir i'w gyflwr blaenorol o fewn 6 wythnos i'r hysbysiad. | **CAS-03684-C2Y0L6**<br>**Gwrthodwyd yr Apêl a Chadarnhawyd yr Hysbysiad 20/032025**<br><br>Daeth yr Arolygydd i'r casgliad bod angen cyflwyno cyfnod 6 wythnos ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad gorfodi, er mwyn osgoi niwed estynedig i'r cyhoedd. |

**EC24/0029: Mae'r apêl yn ymwneud â chyfnod amser ar gyfer cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad Gorfodi ac nid oes angen ystyried Polisïau.**

# 4. Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd

## Cynnydd yr Amcanion Cynaliadwyedd

### Amcan Cynaliadwyedd 1


**Sectorau amaeth a choedwigaeth sy'n economaidd hyfyw ac yn cyfrannu at warchod a gwella tirlun, bioamrywiaeth a lles cymunedol.**

**Sylwebaeth:**

Mae ffigurau gan StatsCymru ar gyfer cyflogaeth yn ôl diwydiant ac ardaloedd yn ddangosydd rhesymol o iechyd y sectorau amaeth a choedwigaeth yn y Sir. Yn ôl y data presennol, roedd dirywiad mewn cyflogaeth yn y sectorau amaeth, coedwigaeth a physgota rhwng 2016 a 2018, ond cynnydd amlwg yn 2019.

Nid oes unrhyw ddiweddariadau i'r set ddata hon, a ddarperir gan StatsCymru, wedi cael eu cyhoeddi ers i ddata 2019 gael ei gyhoeddi. Mae data sy'n deillio o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod yna ddirywiad sylweddol yn nifer y gweithwyr yn y meysydd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021 – 2022** | Parhau i fonitro | Mae angen mwy o ddata i lunio casgliadau – y data diweddaraf wedi'i gynnwys. | - |
| **2022 - 2023** | Parhau i fonitro | Mae angen mwy o ddata i lunio casgliadau – y data diweddaraf wedi'i gynnwys. | - |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Mae angen dangosydd arall ar gyfer yr amcan hwn. | - |
| **2024-2025** | Mae angen dangosydd amgen ar gyfer yr amcan hwn. | Mae angen dangosydd amgen ar gyfer yr amcan hwn. | - |




Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl diwydiant ac ardal (StatsCymru) data wedi ei godi ar 02/08/2023.– TS060A-Diwydiant, Cyfrifiad 2021 (NOMIS)

## Amcan Cynaliadwyedd 2

### Lleoli datblygiadau fel eu bod yn lleihau’r galw am deithio, yn enwedig mewn ceir


**Sylwebaeth:**

Mae data traffig gan yr Adran Drafnidiaeth (2000-2024) ar gyfer lleoliadau oddi mewn i’r Parc Cenedlaethol yn dangos bod lefelau traffig wedi bod yn gyson rhwng 2010 a 2017, a’u bod wedi cyrraedd eu brig yn 2018 a 2019. Yna, gwelwyd gostyngiad arwyddocaol yn 2020 – oherwydd y pandemig Covid-10, yn ôl pob tebyg. Cynyddodd y traffig drachefn yn 2021 a 2022, ond gwelwyd y lefelau isaf a gofnodwyd yn 2023, sef 13,810 yn llai o gerbydau o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Yn 2024, gwelwyd rhywfaint o gynnydd yn y traffig – sef cynnydd o 775 o gerbydau. Er na wyddys yn iawn beth sydd wrth wraidd yr amrywio diweddar hwn mewn lefelau traffig, efallai ei fod yn adlewyrchu dirywiad yn nifer yr ymwelwyr.

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi’r amcan hwn trwy gynnal neu wella cyfleusterau cymunedol a chyfyngu ar ddatblygiadau mewn ardaloedd â seilwaith gwael.

**Dangosydd 31 yn y Cynllun Datblygu Lleol:** Yn ôl Polisi 54 (Cyfleusterau Cymunedol a Gofynion Seilwaith), ni chollwyd unrhyw gyfleusterau cymunedol o bwys ac ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio i’w colli a oedd yn groes i ofynion Polisi 54 (wele hefyd Amcan SA 13).

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2022-2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |




Cyfrif Traffig yr Adran Drafnidiaeth – data wedi ei godi ar 17/06/2025

## Amcan Cynaliadwyedd 3

**Gwarchod a gwella tirluniau, trefluniau a morluniau a'u holl gynhwysion cyfansawdd (gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig ac archeoleg) sy'n berthnasol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.**

### Sylwebaeth:

Mae pryderon am newidiadau tymor hir i ansawdd tirlun y Parc Cenedlaethol yn rhan o'r rhesymeg sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn.

Mae cyfraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol at yr amcan SA hwn yn dod o gymhwyso polisi a chanllawiau cynllunio atodol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, Gwarchod y Tirlun, Ynni Adnewyddadwy ac Effaith Gronnus Tyrbinau Gwynt.

Mae'r perfformiad yn ôl Dangosydd 4 yn dangos nad oes unrhyw geisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i argymhellion y swyddogion yn ystod y cyfnod monitro hwn

Mae Dangosydd 14 yn ymwneud â chymhwyso'r Polisi a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ynni Adnewyddadwy o ran effaith gronnus tyrbinau gwynt ar y tirlun ac amwynder gweledol.  Dros y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw geisiadau oedd yn anghyson â'r Polisi neu'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

**Casgliad:** Mae perfformiad yn y gorffennol ar gyfer yr Amcan SA hwn wedi bod yn destun pryder, a chyfnod monitro 2022-2023 yn benodol, pan gafodd tri chais eu cymeradwyo a oedd, ym marn y swyddogion, yn groes i Bolisi 8 (Nodweddion Arbennig), gan fynd y tu hwnt i'r pwynt sbarduno ar gyfer Dangosydd 4. Cymerwyd camau gweithredu ar ffurf hyfforddiant i Aelodau, ac yn ystod y cyfnod monitro hwn, nid oes unrhyw ganiatâd wedi'i ddyfarnu yn groes i argymhellion.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Angen ymchwilio / ymchwil pellach. | Mae'r perfformiad yn bryderus oherwydd mae'r nodweddion arbennig yn greiddiol i ddynodiad y Parc Cenedlaethol. | 🟠 |
| **2022-2023** | Angen hyfforddiant | Mae'r perfformiad yn bryderus oherwydd mae'r nodweddion arbennig yn greiddiol i ddynodiad y Parc Cenedlaethol. | 🔴 |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Mae'r perfformiad yn y cyfnod monitro hwn yn dderbyniol. | 🟢 |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Mae'r perfformiad yn y cyfnod monitro hwn yn dderbyniol. | 🟢 |

## Amcan Cynaliadwyedd 4

**Cynyddu nifer y preswylwyr ac ymwelwyr sy'n cymryd rhan mewn mathau corfforol o hamdden (yn enwedig cerdded a beicio) a gweithgareddau gwirfoddoli.**

### Sylwebaeth:

Mae rôl y Cynllun Datblygu Lleol mewn cwrdd â'r amcan hwn yn debygol o gael ei chyfyngu i benderfynu ceisiadau sy'n cynnig datblygiadau i gefnogi'r gweithgareddau hyn, a sicrhau ymrwymiadau cynllunio i ddatblygu llwybrau cerdded a beicio.

Mae Dangosydd Perfformiad 31 (Polisi 54 Cyfleusterau Cymunedol a Gofynion Seilwaith) yn dangos bod y polisi'n perfformio'n dda oherwydd nid ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio'n groes i Bolisi 54 dros y cyfnod monitro hwn na bywyd y Cynllun hyd yma.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2022-2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |

## Amcan Cynaliadwyedd 5


**Cynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol y tu allan i'r tymor brig ar gyfer ymwelwyr.**

**Sylwebaeth:**

Gallai'r Cynllun Datblygu Lleol gyfrannu at yr Amcan SA hwn drwy ddarparu ystod o gyfleusterau hamdden a llety a allai gynnig defnyddiau drwy gydol y flwyddyn. Mae Polisi 38 (Economi Ymwelwyr) yn caniatáu ar gyfer datblygu cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr. Ni chymeradwywyd unrhyw ddatblygiad hamdden yn groes i Bolisi 38 dros y cyfnod monitro hwn.

Mae cyfrifyddion ar gyfer y rhwydwaith llwybrau troed cyfan yn y Parc yn awgrymu tuedd o gynnydd graddol y tu allan i'r tymor brig (Ch4), sydd wedi parhau ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Dengys defnydd yn y misoedd brig (Ch1) gynnydd a lleihad amlwg rhwng 2019 a 2020 ac i mewn i 2021, sy'n debygol o fod oherwydd pandemig Covid-19. Rhwng 2022 a 2024, gwelwyd dirywiad arwyddocaol yn y niferoedd ar gyfer y chwarter 1af, gan awgrymu bod defnydd o lwybrau troed yn ystod y prif dymor yn dirywio. Hefyd, gwelwyd dirywiad yn y niferoedd ar gyfer y 4ydd chwarter, ond mae'r dirywiad hwn yn llawer mwy graddol.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021 – 2022** | Parhau i fonitro | Mae angen mwy o ddata i ddod i gasgliadau – data diweddaraf wedi'i gynnwys. | - |
| **2022 – 2023** | Parhau i fonitro | Mae angen mwy o ddata i ddod i gasgliadau – data diweddaraf wedi'i gynnwys. | - |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Mae angen mwy o ddata i ddod i gasgliadau – data diweddaraf wedi'i gynnwys. | - |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Dengys y data fod y defnydd a wneir o lwybrau troed wedi parhau i ddirywio ar ôl y pandemig Covid-19 – sef rhywbeth a all awgrymu dirywiad mwy cyffredinol. Mae angen rhagor o ddata. | - |




Data Cyfrif Llwybrau Troed, Y rhwydwaith llwybrau troed mewndirol 2017 - 2024

## Amcan Cynaliadwyedd 6

**Rheoli effeithiau newid hinsawdd yn enwedig y perygl llifogydd; yr effaith ar fioamrywiaeth; iechyd y cyhoedd.**

**Sylwebaeth:**

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at yr amcan hwn yn bennaf drwy beidio ag ychwanegu at seilwaith sydd mewn perygl oddi wrth lifogydd arfordirol / o afonydd. Dengys perfformiad yn erbyn Dangosydd 15 (Polisi 34) Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw geisiadau mewn parth llifogydd C2 nac ym mharth 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. 2024.

Mae polisïau 35-37 y Cynllun Datblygu Lleol yn dynodi ‘Ardaloedd Rheoli Risg Arfordirol’ ac yn caniatáu ar gyfer adleoli ac adnewyddu cartrefi a chyfleusterau cymunedol, gan helpu cymunedau arfordirol yn y Parc Cenedlaethol i addasu i effeithiau’r newid hinsawdd.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Angen ymchwil / ymchwilio pellach . | Perfformiad yn destun pryder. | |
| **2022-2023** | Angen hyfforddiant . | Perfformiad yn destun pryder. | |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Mae’r perfformiad yn y cyfnod monitro hwn yn dderbyniol. | |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Mae’r perfformiad yn y cyfnod monitro hwn yn dderbyniol. | |

## Amcan Cynaliadwyedd 7


### Lleihau'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid hinsawdd

**Sylwebaeth:**

Dengys amcangyfrifon diweddaraf yr Adran Diogelwch Ynni a Sero-Net o allyriadau Carbon Deuocsid ar gyfer Parciau Cenedlaethol mai'r ffynonellau mwyaf sydd o fewn sgôp dylanwad y Cynllun Datblygu Lleol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn hanesyddol, yw'r sector masnachol, domestig, diwydiant, y sector cyhoeddus a thrafnidiaeth. Mae lefelau allyriadau ar draws sectorau yma wedi dangos gostyngiad graddol ers 2016, ac eithrio trafnidiaeth sydd wedi parhau fwy neu lai yr un faint. Rhwng 2019 a 2020 fodd bynnag, cafwyd cynnydd mewn diwydiant a masnach ond maent yn dangos gostyngiad yn 2022.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at yr Amcan SA hwn drwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn defnyddio ynni a deunyddiau'n effeithlon; drwy gymeradwyo cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol, a thrwy hyrwyddo cadw neu ehangu cyfleusterau cymunedol.
Mae Dangosyddion 11 (Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy), 12 (cynlluniau Ynni Adnewyddadwy a ganiatawyd), 13 (Capasiti Ynni Adnewyddadwy) a 31 (Polisi 54 Cyfleusterau Cymunedol a Gofynion Seilwaith) i gyd yn dangos perfformiad da heb unrhyw benderfyniadau'n groes i'w polisïau dros y cyfnod monitro hwn.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● (gwyrdd) |
| **2022-2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● (gwyrdd) |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● (gwyrdd) |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● (gwyrdd) |




| | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Commercial | 30.605 | 32.063 | 30.78 | 30.808 | 26.734 | 28.086 | 25.279 | 27.704 | 26.034 | 22.09 | 19.98 | 16.458 | 12.489 | 13.525 | 14.781 | 11.579 | 12.748 | 10.198 | 9.1588 |
| Domestic | 77.984 | 79.751 | 75.791 | 76.253 | 70.224 | 76.846 | 66.899 | 69.792 | 68.832 | 59.625 | 56.866 | 53.826 | 50.744 | 50.036 | 48.208 | 47.26 | 46.947 | 38.672 | 38.264 |
| Industry | 8.5242 | 7.8258 | 7.4099 | 6.7118 | 6.018 | 6.6767 | 6.279 | 5.3801 | 5.6305 | 5.6046 | 4.983 | 4.2038 | 3.5685 | 2.9887 | 2.7056 | 2.4514 | 3.1288 | 3.4529 | 2.5777 |
| Public Sector | 4.727 | 4.5124 | 4.3543 | 4.1134 | 3.6859 | 3.8322 | 3.4512 | 3.7757 | 3.6316 | 3.2212 | 2.8132 | 2.3832 | 2.2385 | 1.8685 | 1.8077 | 1.625 | 1.7823 | 1.4549 | 1.327 |
| Transport | 40.088 | 40.9 | 41.34 | 41.093 | 39.732 | 39.545 | 37.836 | 37.17 | 37.622 | 39.275 | 39.969 | 42.186 | 41.962 | 43.074 | 42.439 | 34.079 | 34.727 | 34.087 | 33.259 |

Ffynonellau allyriadau: UK local authority and regional greenhouse gas emissions statistics, 2005 to 2023 - GOV.UK- GOV.UK (www.gov.uk)- data wedi ei godi ar 14/07/2025

## Amcan Cynaliadwyedd 8

## Gwneud y mwyaf o gyfraniad yr ychydig gyfleoedd datblygu er mwyn cynnal cymunedau lleol.

### Sylwebaeth:

Bydd cynnydd yr amcan hwn yn dod yn bennaf drwy ddatblygiadau tai a darparu tai fforddiadwy.

Mae Dangosydd 23 (Polisi 52, Tai Fforddiadwy) yn dangos cynnydd cronnus da tuag at dargedau tai fforddiadwy'r Cynllun Datblygu Lleol.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| 2021- 2022 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| 2022-2023 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| 2023-2024 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| 2024-2025 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |

## Amcan Cynaliadwyedd 9

**Annog mynediad i'r Parc Cenedlaethol ar gyfer pawb, gan adlewyrchu cymysgedd cymdeithasol cymdeithas.**

**Sylwebaeth:**

Daw cyfraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol at yr Amcan SA hwn yn bennaf drwy ddarparu tai fforddiadwy ynghyd ag ystod o wahanol fathau o lety gwyliau sy'n addas ar gyfer gwahanol gyllidebau.

Mae Dangosyddion 23 a 30 yn dangos cynnydd da tuag at dargedau tai'r Cynllun Datblygu Lleol.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2022-2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |

## Amcan Cynaliadwyedd 10

**Cynnal diwylliant nodedig cymunedau.**
**Mae'r amcan cynaliadwyedd hwn yn berthnasol i'r holl agweddau sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw a diwylliant nodedig y Parc Cenedlaethol.**

### Sylwebaeth:

Mae'r amcan cynaliadwyedd hwn yn berthnasol i'r holl agweddau sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw a diwylliant nodedig y Parc Cenedlaethol.

Yng nghyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol, bydd yr hyn a gyflawnir tuag at yr amcan hwn mewn tair rhan. Yn gyntaf, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gallu cyfrannu at yr amcan drwy helpu i sicrhau bod pobl a dyfodd i fyny yn y Parc Cenedlaethol yn gallu cael cyfle i barhau i fyw yno ar ôl tyfu'n oedolion drwy gynnal cymunedau lleol a chynorthwyo mynediad at gyflogaeth (wele Amcan SA 8).


Yn ail, bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gallu cyfrannu at yr amcan drwy helpu i gynnal a gwella nodweddion diwylliannol o bwys yn yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol.

Yn drydydd, drwy helpu i warchod yr iaith Gymraeg.

Yn ystod cyfnod monitro 2022-2023, nodwyd bod llai na 10% o Adeiladau Rhestredig (5.5%) yn wynebu unrhyw berygl. Oherwydd adnoddau, ni chynhaliwyd arolwg yn 2023-24 ar nifer yr Adeiladau Rhestredig a oedd mewn perygl. Yn ystod cyfnod monitro 2024-25, gwelwyd bod 5.4% o Adeiladau Rhestredig mewn perygl, sef gostyngiad bach o gymharu â 2022-23.potensial hefyd i newid defnydd / addasu Adeiladau Rhestredig. Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 un cais am newid defnydd neu drosi cafodd ei gymeradwyo.

Mae Dangosydd 5 (Polisi 13 Yr Iaith Gymraeg) yn dangos nad oedd unrhyw benderfyniadau'n groes i bolisi'r Iaith Gymraeg dros y cyfnod monitro hwn. Dengys Dangosydd 23 (Polisïau 47-49) fod nifer y tai fforddiadwy a godwyd dros y cyfnod monitro hwn wedi rhagori ar y targed. Mae darparu tai fforddiadwy'n cyfrannu at yr amcan SA hwn drwy helpu pobl i aros yn eu cymunedau.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2022-2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | ● |


Canran yr Adeiladau Rhestredig mewn Perygl
%
7
6
5
4
3
2
1
0
2016-17 2017-18 2018-19 2019-20 2020-21 2021-22 2022-23 2023-24 2024-25

## Amcan Cynaliadwyedd 11


**Bod effeithiau niweidiol tyllu am fwynau yn y Parc Cenedlaethol yn lleihau o'r lefel bresennol a bod enillion bioamrywiaeth a thirlun posib o safleoedd mwynau blaenorol yn cael eu cyflawni.**

### Sylwebaeth:

Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau i ddatblygu mwynau dros y cyfnod monitro hwn (Dangosydd 9). Ni chododd unrhyw fater arall gyda thyllu am fwynau dros y cyfnod monitro hwn.

Dengys y map ar y dudalen nesaf leoliad y safleoedd tyllu am fwynau oddi mewn, ac o fewn 1 cilometr, i'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys pob safle, rhai gweithredol ac wedi cau.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2022-2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |



## Amcan Cynaliadwyedd 12

## Lleihau effeithiau negyddol gwastraff.

### Sylwebaeth:


Mae Polisïau 27 a 28 yn caniatáu ar gyfer sefydlu cyfleusterau rheoli a chompostio gwastraff sydd o fudd i gymunedau yn y Parc Cenedlaethol, ar yr amod bod eu lleoliad yn briodol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais yn groes i'r polisïau hyn (wele Ddangosydd 10) dros y cyfnod monitro hwn.


Mae mwy o ailgylchu'n digwydd yn y Sir yn y blynyddoedd diwethaf (wele isod) a llai o dipio anghyfreithlon.

Ar ôl cyflwyno'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu domestig newydd ym mis Tachwedd 2019, Sir Benfro ydy un o ailgylchwyr gorau Cymru erbyn hyn, ynghyd ag Abertawe

Mae tipio anghyfreithlon wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn ers 2017. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bach yn nifer y digwyddiadau rhwng 2023 a 2024 yn y data diweddaraf.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| 2021 - 2022 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| 2022- 2023 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| 2023-2024 | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| 2024-2025 | | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |




Cyfraddau ail-ddefnyddio, ailgylchu / compostio blynyddol yn ôl awdurdod lleol (StatsCymru) – data wedi ei godi ar 15/07/25
Digwyddiadau Tipio Anghyfreithlon a Gofnodwyd (StatsCymru) – data wedi ei godi ar 15/07/25

## Amcan Cynaliadwyedd 13

**Mae'r cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, cyfleusterau cymdeithasol a siopa) yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl y Parc Cenedlaethol.**

### Sylwebaeth:

Mae monitro ar gyfer Dangosydd 31 yn dangos nad oes unrhyw benderfyniad cynllunio wedi'i wneud yn groes i Bolisi 54 (Cyfleusterau Cymunedol) sydd yn diogelu rhag colli cyfleusterau cymunedol.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2022- 2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |

## Amcan Cynaliadwyedd 14

## Cynnal a gwella bioamrywiaeth o fewn a'r tu allan i safleoedd dynodedig

**Sylwebaeth:**

Mae cyfraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol at yr amcan SA hwn yn dod drwy bolisïau Bioamrywiaeth y Cynllun a thrwy welliannau bioamrywiaeth i ddatblygiadau sy'n cael eu cynnwys fel amodau ar ganiatâd cynllunio.

Yn ystod cyfnod monitro 2024-25 roedd 351 o geisiadau cynllunio naill ai'n cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth neu'n amod ar y caniatâd.

Ers mis Hydref 2023, mae angen datganiad newydd nawr gyda phob cais newydd i ddisgrifio sut y bydd Seilwaith Gwyrdd yn cael ei ymgorffori. Mae'r mesur hwn yn sicrhau bod pob cais yn cynnwys budd net o ran bioamrywiaeth.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2022- 2023** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol. | |



## Amcan Cynaliadwyedd 15

### Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o, a chynnal a gwella ansawdd dyfroedd mewndirol ac arfordirol.

**Sylwebaeth:**

**Ffosfforws mewn afonydd:** Ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yn cynnwys afonydd sensitif i ffosfforws[26]

Yn Ionawr 2021 cyhoeddodd NRW adroddiad yn cyflwyno ei asesiad o faint o ffosfforws sydd mewn afonydd ACA o'i fesur yn erbyn targedau ansawdd dŵr diwygiedig. O adolygu'r dystiolaeth, roedd dros 60% o gyrff dŵr a aseswyd mewn dalgylchoedd afon ACA wedi methu â chyrraedd y targedau ansawdd dŵr diwygiedig ar gyfer ffosfforws. Gall rhai datblygiadau newydd fel datblygiadau tai neu amaethyddol arwain at fwy o ffosfforws yn mynd i mewn i'r afonydd o ddŵr gwastraff ychwanegol neu o fethu â rheoli gwrtaith a slyri yn iawn. O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i Awdurdodau Cynllunio ystyried effaith ffosfforws unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar ansawdd y dŵr mewn dalgylchoedd afon ACA. Ar hyn o bryd mae un ardal wedi eu heffeithio yn y Parc Cenedlaethol lle y mae gwaith datblygu'n digwydd (Rhos-y-bwlch). Bydd y broblem yn parhau i gael ei monitro.


Disgwylir hefyd wybodaeth am ardaloedd ACA Morol.

Dim newid yn ansawd dŵr nofio rhwng 2022 a 2023, mae'n parhau inofio fod yn rhagorol yn bennaf ar gyfer traethau dynodedig ledled y Parc Cenedlaethol.

Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiad o gydymffurfiant pob ACA Afon yng Nghymru â nifer o dargedau ansawdd dŵr eraill gan gynnwys Ocsigen Tawdd a chyfanswm yr amonia a'r amonia anïoneiddedig. Roedd afonydd Cleddau a Teifi ymhlith y rhai oedd â'r mwyaf o dargedau wedi'u methu. Mae ansawdd dŵr ymdrochi yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn dda neu'n rhagorol ar y cyfan, fydd bynnag, gall problemau godi gyda gorlif stormydd yn cael effaith ar ansawdd dŵr ymdrochi.

| Blwyddyn | Gweithredu | Dadansoddiad | Trosolwg |
|---|---|---|---|
| **2021- 2022** | Parhau i fonitro | Nid yw'r problemau presennol gyda ffosfforws mewn rhannau eraill o Sir Benfro'n effeithio ar strategaeth y Cynllun. | ● |
| **2022- 2023** | Parhau i fonitro | Mae'r sefyllfa'n aros yr un fath â monitro'r blynyddoedd blaenorol. | ● |
| **2023-2024** | Parhau i fonitro | Mae'r sefyllfa'n aros yr un fath â monitro'r blynyddoedd blaenorol. | ● |
| **2024-2025** | Parhau i fonitro | Mae'r sefyllfa'n aros yr un fath â monitro'r blynyddoedd blaenorol. | ● |

[26] Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws




Ansawdd Dŵr Nofio ar Safleoedd Dŵr Nofio Dynodedig (DataMapWales) – data wedi ei godi ar 25/06/25

## Dangosydd cyd-destun ychwanegol

Dyfyniad o adroddiad yr Arolygydd, paragraff 3.34: *darparu dangosyddion cyd-destun ychwanegol i fonitro:*

- *nifer yr aelwydydd heb breswylydd arferol (gwag)*
- *cartrefi ar y databas Treth Cyngor sy'n talu'r premiwm ail gartrefi*
- *y cyfleusterau / gwasanaethau cymunedol*
- *ysgolion a lefelau derbyn ysgolion*

I ddelio â phob un yn ei dro:

### Nifer yr aelwydydd heb breswylydd arferol (gwag) yn 2011:

Rhoddir dadansoddiad ym Mhapur Cefndir yr Awdurdod ar gyfer Archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Polisi 'Prif Breswylfa a / neu Gysylltiadau Lleol'[27] ar sail ffigurau Cyfrifiad 2011 (Nid yw data'r Cyfrifiad o 2021 wedi ei ryddhau eto). Rhoddir y dyfyniad perthnasol isod i hwyluso cyfeirio. **Daw'r cyfle cyntaf i gael gwybodaeth er mwyn gallu cymharu pan gyhoeddir data Cyfrifiad 2021.** Ym mis Awst 2024, nid oedd data ar lefel gymunedol ar gael i'w gymharu.

### *Aelwydydd 'heb breswylydd arferol'*

***Diffiniadau:***

*Mae Cyfrifiad 2011 yn diffinio 'aelwyd' fel llety a ddefnyddir, neu sydd ar gael i'w ddefnyddio, gan aelwyd unigol. I bwrpas y Cyfrifiad, mae aelwydydd yn cael eu hadnabod fel rhai sydd ag o leiaf un preswylydd arferol neu ddim preswylydd arferol.*

*Mae aelwydydd heb breswylydd arferol yn fwy na dim ond aelwydydd gwag – maen nhw hefyd yn gallu bod yn wag neu'n cael eu defnyddio fel ail gartrefi neu dai gwyliau.*

*(Wedi eu trefnu yn ôl canran)*

*(Mae'r celloedd wedi eu hamlygu'n nodi cymunedau gyda 25% neu fwy o aelwydydd heb breswylydd arferol)*

*Tabl 10 Dim Preswylydd Arferol*

| ***Cymuned*** | ***Canran o ddim preswylydd arferol*** | ***Yn y Parc Cenedlaethol?*** | ***Mewn Ardal Sensitif i'r Iaith Gymraeg?**** |
|---|---|---|---|
| *Llandyfái* | *48.2* | *Rhannol* | *Nac ydy* |
| *Trefdraeth* | *37.3* | *Ydy* | *Ydy* |
| *Yr Hafanau* | *35.5* | *Rhannol* | *Nac ydy* |

[27] Papur Cefndir Prif Breswylfa a/neu Bolisi Cysylltiadau lleol

| *Cymuned* | *Canran o ddim preswylydd arferol* | *Yn y Parc Cenedlaethol?* | *Mewn Ardal Sensitif i'r Iaith Gymraeg?** |
|---|---|---|---|
| *Dale* | *33.3* | *Ydy* | *Nac ydy* |
| *Marloes a Sain Ffraid* | *31.9* | *Ydy* | *Nac ydy* |
| *Dinas* | *29.5* | *Ydy* | *Ydy* |
| *Saundersfoot* | *28.6* | *Ydy* | *Nac ydy* |
| *Pencaer* | *28.4* | *Rhannol* | *Ydy* |
| *Llanfair Dinbych-y-pysgod* | *28.1* | *Rhannol* | *Nac ydy* |
| *Tyddewi* | *26.9* | *Ydy* | *Ydy* |
| *Llanrhian* | *26.5* | *Rhannol* | *Ydy* |
| *Nolton a'r Garn* | *26* | *Rhannol* | *Nac ydy* |
| *Amroth* | *25.3* | *Rhannol* | *Nac ydy* |
| *Solfach* | *25.2* | *Rhannol* | *Ydy* |

***Wele Bolisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg***

## Cartrefi ar y databas Treth Cyngor sy'n talu'r premiwm ail gartrefi:

Yn y tabl isod, rhestrir yr ardaloedd cynghorau cymuned a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn y Parc Cenedlaethol lle mae cyfran y cartrefi sy'n talu'r premiwm ail gartrefi, neu sy'n ail gartrefi a eithrir rhag y premiwm ail gartrefi, yn fwy na 28%.

| *Cymuned* | *Canran yr ail gartrefi* | *Yn y Parc Cenedlaethol?* | *Mewn Ardal Sensitif I'r Iaith Gymraeg?** |
|---|---|---|---|
| Dale | 30.30 | Ydy | Nac ydy |

***Wele Bolisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg***

## Cyfleusterau cymunedol

O ran y cyfleusterau sydd ar gael, sy'n peri bod Canolfannau yn Ganolfannau Gwledig, ni welwyd rhyw lawer o newid, ac ni chafwyd colledion nac enillion sylweddol mewn perthynas â chyfleusterau cymwys. Er na chynhaliwyd adolygiad llawn ar gyfer aneddiadau llai, nodir y bydd eu cyfleusterau'n cael eu hadolygu fel rhan o'r broses 'casglu tystiolaeth' sydd ar ddod ar gyfer hierarchiaeth aneddiadau diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol 3.
Ar gyfer Canolfannau mwy, erys yr ystod o gyfleusterau sy'n ofynnol i beri bod y Canolfannau hynny yn Ganolfannau Haen 1 a Haen 2, ac mae'r prif ganfyddiadau ar gyfer 2025 yn dangos bod niferoedd cyffredinol y cyfleusterau cymunedol ar gyfer y prif Ganolfannau yn sefydlog.

## Ysgolion a lefelau derbyn ysgolion

**Rhoddwyd diweddariad gan Gyngor Sir Benfro yn Gorffenaf 2025:**

Mae’r Awdurdod wedi’i hysbysu bod nifer o ysgolion gyda dalgylchoedd o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

*‘“Gan fod nifer y disgyblion cofrestredig wedi gostwng dros sawl blwyddyn, mae gan Sir Benfro nifer o leoedd gwag ac rydym mewn sefyllfa dda i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol a all ddeillio o dai newydd. Cafodd y dystiolaeth ar gyfer hyn ei hystyried gan y Cabinet a’r Cyngor ym mis Gorffennaf 2024, gan arwain at lunio Gweithgor Moderneiddio Ysgolion trawsbleidiol gogyfer adolygu ardaloedd ac ysgolion unigol yn fanylach. O ganlyniad, mae’r Cyngor wedi cymeradwyo cyfnod ar gyfer cynnal ymgynghoriad statudol ynglŷn â chau rhai ysgolion. Yn gyffredinol, mae gan y mwyafrif o ysgolion, neu pan leolir rhan sylweddol o ddalgylchoedd ysgolion yn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, lawer iawn o leoedd gwag. Er enghraifft, ac eithrio Ysgol Hafan y Môr, mae gan ymron pob ysgol arall yn ardal Dinbych-y-pysgod ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer disgyblion a all ddeillio o dai ychwanegol; mae hyn yn wir yn y presennol a hefyd wrth edrych 5-6 mlynedd i’r dyfodol. Yng ngogledd-ddwyrain y sir, ceir llawer o leoedd gwag yn Llandudoch ac Eglwyswrw. Ond mae ysgolion yn y gogledd-orllewin, yn arbennig yn ardaloedd Abergwaun a Thyddewi, yn dangos arwyddion o dwf yn y boblogaeth; er enghraifft, mae gan Ysgol Bro Gwaun yn Abergwaun ac Ysgol Penrhyn Dewi yn Nhyddewi fwy o ddisgyblion nag o leoedd ar hyn o bryd; ac yn y ddau achos hyn, mae’n debyg y bydd y cyngor yn gofyn am gyfraniadau a fydd yn deillio o ddatblygiadau. Yng ngorllewin a de-orllewin y sir, drachefn ceir digon o leoedd mewn ysgolion i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol a all ddeillio o dai newydd.”*

---

*Dyfyniad o bapur cefndir Cynllun Datblygu Lleol 2 ar ‘polisi ar brif breswylfa a / neu gysylltiadau lleol’*

*Data / dangosyddion Gwynedd a Môn: Mae Gwynedd a Môn yn cyfeirio at lefydd gwag mewn ysgolion fel dangosydd o nifer lai o deuluoedd yn y wardiau dan sylw.*

- *Cysylltodd yr Awdurdod â Chyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion Cyngor Sir Benfro i ofyn a oedd unrhyw broblem yn y Sir, yn enwedig yn yr ysgolion hynny sydd â dalgylchoedd o fewn neu’n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol.*
- *Mae’r Awdurdod wedi’i hysbysu bod nifer o ysgolion gyda dalgylchoedd o fewn ardal y Parc Cenedlaethol. Mae gan nifer o’r rhain ddigon o lefydd dros ben, ac yn debygol o barhau i fod â digon, i dderbyn disgyblion ychwanegol o dai newydd, e.e. Ysgolion Llandudoch, Eglwyswrw a Llanychllwydog. Fodd bynnag mae ysgolion eraill yn brin o gapasiti ac yn debygol o ddod dan bwysau cynyddol oddi wrth ddatblygiadau tai newydd; yr ysgolion hyn yw Ysgol Penrhyn Dewi, Ysgol y Glannau ac Ysgol Llandyfái. Dylid nodi yn achos ysgolion Fel Ysgol Stepaside, y bydd pwysau’n debygol o ddod gan ddatblygiadau tai o fewn ardaloedd cynllunio’r Parc Cenedlaethol a’r Cyngor Sir.*
- *Yn gryno, nid yw’n wir bod pob cymuned yn y Parc yn dioddef o ormodedd o lefydd ysgol gwag, yn wir gallai rhai ysgolion ddod o dan bwysau oddi wrth ddatblygiadau newydd yn y Parc dros gyfnod y Cynllun.*

**Casgliad:** Dengys adolygiad o'r data fel a ganlyn:

Nid yw ffigurau Cyfrifiad 2021 o aelwydydd heb breswylydd arferol, er mwyn gallu cymharu â ffigurau 2011, ar gael eto.

- O ran tai sy'n talu'r premiwm Treth Cyngor, mae lleihad bach wedi bod mewn rhai cymunedau. Mae hyn oherwydd newidiadau sylweddol i'r system Treth Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cofnodion ar dai unigol ar gyfer diwedd blwyddyn galendr 2022 wedi rhoi mwy o wybodaeth i gynorthwyo gyda'r rôl y gall cynllunio defnydd tir ei chwarae mewn rhoi sylw i unrhyw broblem yn codi o ran ail gartrefi a thai gwyliau.[28]
- O ran cyfleusterau cymunedol, nid oes arwydd clir bod lleihad wedi bod yn yr ystod o gyfleusterau sydd ar gael mewn Canolfannau. Mae lleihad yn nifer y siopau lleol wedi'i adnabod ynghyd â'r posibilrwydd bod y rhesymau'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw'n gyffredinol.
- Nid yw'r sefyllfa o ran ysgolion a lefelau derbyn ysgolion yn adnabod unrhyw broblem yn ymwneud ag ail gartrefi a thai gwyliau. Mae'r Awdurdod hefyd yn gallu defnyddio'r data Treth Cyngor i ystyried y gallai datblygiadau tai newydd gael eu prynu fel ail gartrefi a thai gwyliau. Mae hyn bellach yn rhan o'r gwaith o arfarnu ceisiadau cynllunio a gyflwynir mewn Canolfannau.[29]

Ers derbyn Adroddiad yr Arolygydd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 (2020), mae cryn drafod wedi bod a newidiadau wedi eu cynnig ynghylch ail gartrefi a thai gwyliau gan Lywodraeth Cymru. Gweler yr adran ar ddechrau Pennod Yr Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth ac Arallgyfeirio Gwledig am wybodaeth ynglŷn â'r modd y mae'r Awdurdod yn ystyried y mater hwn (paragraff 3.22)

[28] Adroddiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol: Goblygiadau Newidiadau Polisi Deddfwriaethol a Chynllunio diweddar Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ail Gartrefi a Gosodiadau Tymor Byr
[29] Adroddiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol: Goblygiadau Newidiadau Polisi Deddfwriaethol a Chynllunio diweddar Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ail Gartrefi a Gosodiadau Tymor Byr

## Atodiad 1 Amseru a darparu safleoedd neilltuo newydd fesul cyfnod

| Haen Aneddiadau | Enw'r Safle a Neilltuwyd | Cyfanswm Capasiti'r Safle | Amser cyn Adeiladu mewn Misoedd | | | Datblygiad Fesul Cyfnod (2015 - 2031) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Amser ar gyfer trafodaethau / ymynghori cyn-cais | Amser rhwng cyflwyno'r cais cynllunio a'I benderfynu | Amser rhwng rhoi'r caniatâd hyd nes cwblhau amodau perthasol er mwyn gallu codi ar y safle | Nifer a godwyd | U/C | 2025 - 26 | 2026 -27 | 2027 -28 | 2028 - 29 | 2029 - 30 | 2030 -31 | Unedau y tu allan i gyfnod y Cynllun |
| Trefdraeth (Haen 2) | Tir i'r gogledd o'r Parc Busnes (HA1) | 15 | | | | | | | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 5 |
| Saundersfoot (Haen 2) | Tir yn Sandy Hill (HA2) | 72 | 28 diwrnod | 21 mis | 4 mis | | | 36 | 7 | 7 | 7 | 7 | 8 | |
| Saundersfoot (Haen 2) | I'r gogledd o Whitlow (HA3) | 54 | 28 diwrnod | 11 mis | 7 mis | 5 | 22 | 31 | 18 | | | | | |
| Saundersfoot (Haen 2) | Penny Farm (HA4) | 36 | | | | | | | 7 | 7 | 7 | 7 | 8 | |
| Aberllydan (Haen 3) | I'r gogledd, dwyrain a'r de o Marine Road (HA5) | 87 | | | | | | | 13 | 13 | 13 | 13 | 13 | 22 |
| Lydstep (Haen 3) | I'r gorllewin o'r Grîn (HA7) | 10 | | | | | | | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | |
| Square and Compass (Haen 3) | Cae Glasfryn (HA8) | 7 | | | | | | | 1 | 1 | 1 | 1 | | 3 |
| Square and Compass (Haen 3) | Tir gerllaw Bryngolau (HA9) | 10 | | | | | | | 1 | 1 | 1 | 1 | | 6 |
| Trefin (Haen 3) | Tir oddi ar Cefn Gallod (HA10) NP/21/0577/FUL | 11 | 28 diwrnod | 12 mis | | | | 11 | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | **302** | | | | | | **78** | **51** | **33** | **33** | **33** | **33** | **36** |

## Atodiad 2 Amseru a darparu safleoedd gyda chaniatâd cynllunio fesul cyfnod

| Haen Aneddiadau | Enw'r Safle | Cyfanswm Capasiti'r Safle | Nifer a Godwyd | U/C | 2025 - 26 | 2026 -27 | 2027 -28 | 2028 - 29 | 2029 - 30 | 2030 -31 | Unedau y tu allan i gyfnod y Cynllun |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dinbych-y-pysgod (Haen 1) | White Lion Street / Deep Park / Upper Park Road (Delphi) (NP/11/064) | 62 | 51 | | | | | | | | 11 |
| Saundersfoot (Haen 2) | Gwesty Cambrian (NP/12/0054) | 29 | 13 | | | | | | | | 16 |
| Saundersfoot (Haen 2) | The Incline (Ocean Point) (99/254, 06/611 a NP/14/0439) | 20 | 16 | | | | | | | | 4 |
| St. Davids (Haen 2) | I'r gogledd o Twr y Felin (99/254 a 06/611) | 9 | 8 | | | | | | | | 1 |
| St. Davids (Haen 2) | I'r gorllewin a'r dwyrain o Glasfryn Road (NP/18/0575/OUT a NP/19/0648/RES) | 58 | 42 | 16 | 16 | | | | | | |
| St. Davids (Haen 2) | Gerllaw Ysgol Bro Dewi (NP/18/0488/OUT) | 11 | 11 | | | | | | | | |
| Jameston (Haen 3) | Gyferbyn â Bush Terrace (NP/18/0610/FUL) | 38 | 11 | | 28 | | | | | | |
| Lawrenny (Haen 3) | Gerllaw Home Farm (NP/18/0622/FUL) | 39 | | | | 8 | 8 | 8 | 8 | 7 | |
| Solfach (Haen 3) | Ynys Dawel (HR/6124) | 6 | | | | | | | | | 6 |
| Llanismel (Haen 3) | Gerllaw'r Ysgol Gynradd, Trewarren Road (NP/21/0743/FUL) | 15 | | | 7 | 8 | | | | | |
| Cefn Gwlad (Haen 4) | Blockett Lane, Yr Aber Bach (10/511) | 6 | | | | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | |
| Cefn Gwlad (Haen 4) | Boulston Manor, Uzmaston (04/400) | 5 | | | | | | | | | 5 |
| Cefn Gwlad (Haen 4) | Brynhir, Dinbych-y pysgod (NP/19/0361/OUT) | 125 | | | | 25 | 25 | 25 | 25 | 25 | |
| Cefn Gwlad (Haen 4) | I'r gogledd o Bay View Terrace, Dinas Cross (NP/19/0548/FUL) | 15 | | | 15 | | | | | | |
| Cefn Gwlad (Haen 4) | Buttyland (NP/19/0522/FUL) Amllinellol ar gyfer tai | 14 | | | | | 7 | 7 | | | |
| **Cyfanswm** | | **452** | **152** | **16** | **66** | **42** | **41** | **41** | **34** | **34** | **43** |